# Adnewyddu swyddfeydd

1 Medi 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Awst, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

> *Faint a wariwyd ar newidiadau / adnewyddu / newidiadau dodrefn / addasiadau cynllun swyddfa ac ati yn swyddfa grŵp Ceidwadwyr Cymru neu yn swyddfa Andrew R T Davies yn y ddwy flynedd ddiwethaf?*

Yn ystod y cyfnod diddymu ym mis Ebrill 2016, cafodd holl swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad a swyddfeydd grwpiau'r pleidiau eu hadnewyddu i baratoi ar gyfer y Pumed Cynulliad. Nid yw'n bosibl darparu dadansoddiad o'r gost hon fesul swyddfa Aelod Cynulliad unigol neu fesul swyddfa grwpiau'r pleidiau.

Yn ystod y cyfnod o ddwy flynedd a nodwyd, gwariwyd cyfanswm o £5,440 yn swyddfa grŵp Ceidwadwyr Cymru a swyddfa Andrew RT Davies ar "newidiadau / adnewyddu / newidiadau dodrefn / addasiadau cynllun swyddfa ac ati".

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF